Emyr Roberts

Cyfoeth Naturiol Cymru

2 December 2016

Annwyl Emyr,

Diolch i chi a Ms. McCrea am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 2 Tachwedd 2016.

Rydym hefyd yn ddiolchgar am y papurau a ddarparwyd gennych cyn y cyfarfod ac am y wybodaeth bellach yr anfonoch ar 11 Tachwedd 2016.

Ar ôl ystyried y wybodaeth hon, rydym wedi dod i nifer o gasgliadau, ac rwy'n eu nodi yn y llythyr hwn.

**Arbedion yr achos busnes**

Rydym yn falch o nodi'r cynnydd sylweddol a wnaed tuag at wireddu'r arbedion arian parod a nodwyd yn yr achos busnes.

Er bod cynnydd da hefyd yn cael ei wneud o ran gwireddu buddion nad ydynt yn arian parod, hoffem weld rhagor o wybodaeth am sut y mae'r buddion hyn yn cael eu mesur. Hefyd, hoffem ddeall a yw'r gyfradd o wireddu arbedion arian parod wedi cael effaith ar wireddu buddion nad ydynt yn arian parod.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o wybodaeth i ni ynghylch sut rydych yn nodi ac yn mesur buddion nad ydynt yn arian parod ac a yw proffil yr arbedion arian parod wedi cael effaith o ran eu gwireddu.

### Cynllunio ariannol

Rydym yn cydnabod yr anhawster sy'n eich wynebu o ran rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru ar sail cyllideb flynyddol. Rydym yn cefnogi eich awgrym y dylech gael ffigurau dangosol am dair blynedd neu fwy. Rydym wedi codi hyn gyda'r Pwyllgor Cyllid ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

### Arolwg staff

Mae'n anffodus nad ydym wedi gweld gwelliant yng nghanlyniadau'r arolwg staff. Er ein bod yn eich canmol unwaith eto am fod mor agored yn trafod canlyniadau'r arolwg, mae morâl staff yn fater sy'n gynyddol yn peri pryder.

Amlinelloch chi a Ms. McCrea y camau yr ydych yn eu cymryd i wella'r cyfathrebu rhwng haenau uwch y sefydliad a'r staff ar lefelau eraill. Rydym yn gobeithio y bydd y camau hyn yn llwyddiannus.

Rydym yn disgwyl gweld gwelliant sylweddol pan fydd canlyniadau'r arolwg staff nesaf yn cael eu cyhoeddi. Rydym yn credu bod hyn yn ffordd bwysig o fesur o sut y mae tîm gweithredol a Bwrdd CNC yn perfformio.

### Cyflwr safleoedd Natura 2000 morol, daearol a dŵr croyw

Rydym yn cydnabod bod y gwaith o wella a chynnal cyflwr safleoedd gwarchodedig yn aml yn gymhleth, a bod angen gwneud gwaith partneriaeth  gydag awdurdodau perthnasol a phartneriaid sydd â buddiant ar draws nifer o sectorau mewn llawer o achosion. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl gweld gwelliant sylweddol yn y maes hwn, gyda thystiolaeth o gynnydd tuag at darged corfforaethol CNC i 95% o safleoedd rhyngwladol

(ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig a Ramsar) fod mewn cyflwr ffafriol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhaglen Life Natura 2000 a'r fframwaith gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer Cymru, a byddwn yn cadw golwg ar sut y caiff y cynlluniau gweithredu thematig a gwella â blaenoriaeth eu rhoi ar waith a'u cyflawni wrth symud ymlaen.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd i chi pam mae cyflwr safleoedd yng Nghymru yn waeth nag mewn rhannau eraill o'r DU. Nid oedd yn eglur o'ch ateb pam mae hyn yn wir, ac felly byddem yn ddiolchgar pe gallech roi esboniad i ni.

Rydym yn nodi bod eich ymateb yn awgrymu bod y mater hwn yn heriol oherwydd bod gan lawer o sefydliadau rôl mewn perthynas â'r safleoedd hyn, a bod gennych chi gynllun gweithredu i wella'r ardaloedd rydych chi'n gyfrifol amdanynt.

Fodd bynnag, eich targed corfforaethol yw i 95% o safleoedd rhyngwladol (ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig a Ramsar) fod mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010 (targed y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru), heb gyfeiriad at darged penodol ar gyfer y safleoedd y mae CNC yn llwyr gyfrifol amdanynt. Byddem yn ddiolchgar o gael manylion am sut rydych yn ceisio cyflawni eich targed mewn perthynas â'r safleoedd hynny nad ydych yn gyfrifol amdanynt.

**Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)**

Er nad oedd ein trafodaeth ynghylch y SoNaRR yn rhan o'n gwaith craffu blynyddol ar CNC, hoffwn ddiolch i chi am hwyluso'r broses o gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor ac rwy’n canmol y staff CNC a gyfrannodd at lunio'r adroddiad hollbwysig hwn. Mae'n gam cyntaf pwysig tuag at reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

Rydym yn cael ar ddeall, o ganlyniad i'r amserlen uchelgeisiol iawn ar gyfer llunio'r SoNaRR cyntaf hwn, na wnaeth rhanddeiliaid y math o gyfraniad y byddech chi a nhw wedi hoffi ei weld mewn amgylchiadau mwy ffafriol.

Rydym yn cael ar ddeall mai bwriad CNC yw ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol wrth lunio'r SoNaRR. Er mwyn bod yn bendant ynghylch y pwynt hwn, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech gadarnhau bod hyn yn wir.

Rydym yn credu bod craffu ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn elfen allweddol o'n gwaith ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i ddatblygu ein dull gweithredu wrth i'r Cynulliad hwn fynd yn ei flaen.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar waith y Pwyllgor, byddwn yn hapus iawn i gyfarfod â chi. Rwy'n estyn yr un gwahoddiad i Ms. McCrae fel Cadeirydd Bwrdd CNC.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Ms. McCrae ac at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn Gywir,

Mark Reckless

Cadeirydd